PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 444 | Rhagfyr 2021



Storm Barra

t.6

Cwis Nadolig y Tincer

t.9

77 oed ac yn dal i redeg!

t.7



# Hedydd Dylan yn serennu yn Stratford



Lluniau: RSC

Yn ddiweddar bu Hedydd Dylan, yr actores lwyddiannus o'r Borth, yn portreadu Adrianna mewn cynhyrchiad o *The Comedy of Errors* gan William Shakespeare yn Stratford upon Avon. Adeiladwyd 'theatr' dros dro yn y gerddi ger y theatr yn Stratford ar gyfer y cynhyrchiad er mwyn cyd-fynd â rheolau cofid. Cafodd y cynhyrchiad ganmoliaeth mawr gan y beirniaid a chafodd perfformiad Hedydd sylw arbennig nid yn unig am ei pherfformiad ardderchog ond am ei dehongliad annisgwyl o Adrianna. Yr hyn a dynnodd sylw'r adolygwyr oedd fod y cymeriad Adrianna, er nad yw Shakespeare yn nodi hynny, yn cael ei phortreadu fel dynes feichiog gan Hedydd. Ac roedd rheswm syml am hynny, roedd Hedydd yn feichiog! Pan ddywedodd Hedydd wrth y cyfarwyddwr Phillip Breen ar gychwyn yr ymarferion ei bod yn feichiog bu'r cyfarwyddwr yn pendroni ac wedi trafod gyda Hedydd a chynllunydd y cynhyrchiad penderfynodd y byddai'r beichiogrwydd yn ychwanegu dimensiwn ychwanegol at y cymeriad. Yn ôl Breen, sy'n un o brif gyfarwyddwyr y Royal Shakespeare Company, mi weithiodd y syniad yn ardderchog gan gryfau perthynas Adrianna a'i gŵr Antipholus ac ychwanegu at yr emosiwn ar ddiwedd y ddrama drwy roi ystyr dyfnach i linell mam Antipholus wrth iddi lawenhau bod y teulu'n gyfan unwaith eto sef : 'After so long grief, such nativity!' Erbyn hyn mae'r cynhyrchiad wedi trosglwyddo i Theatr y Barbican yn Llundain ond heb Hedydd. Mae gan Hedydd bethau eraill ar ei meddwl gan fod y babi i fod i gyrraedd cyn y Nadolig! Dymunwn y dda iddi gan obeithio y bydd perfformiad y babi'n plesio hefyd.

**GWJ**



# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwaill, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG


# dyddiadur

**Rhifyn Ionawr**. **Dyddiad cau** Ionawr 7; **Dyddiad cyhoeddi** Ionawr 19

**RHAGFYR 16** Nos Iau Plygain draddodiadol – trefnir yn rhithiol trwy zoom am 7.00. Cofrestru efo lyndafis@gmail.com

**RHAGFYR 18** Bore Sadwrn Brecwast gyda Sion Corn yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch – Brecwast @9.00; Sion Corn 9.30-10.00

**RHAGFYR 22** Dydd Mercher Ysgolion Ceredigion yn cau ar gyfer Gwyliau Nadolig

**2022**
**IONAWR 5** Dydd Mercher Disgyblion Ceredigion yn dychwelyd i'r ysgol wedi Gwyliau Nadolig

**IONAWR 19** Nos Fercher Cymdeithas y Penrhyn. Noson yng nghwmni Cemlyn Davies Trwy zoom am 7.30 Manylion gan yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd

**IONAWR 21** Nos Fercher Cymdeithas Lenyddol y Garn Trwy zoom am 7.30. Cysylltwch â Marian am fanylion. Marian_hughes@btinternet.com 'William Francis Hughes, Oerddwr (1879–1966): bardd gwerth ei gofio' – sgwrs gan Dr Bleddyn Huws

Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu – eleni i'r elusen Alltudion ar waith: Displaced people in action. **www.dpia.org.uk/**






# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Tachwedd 2021

**£25** (Rhif 240) Teulu Bodhywel, Bow Street
**£15** (Rhif 174) Y Parchg Wyn Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 79) Wendy Reynolds, 63 Ger-y-llan, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plîs rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com **Mae yn amser adnewyddu eich aelodaeth o'r cyfeillion erbyn 1 Ionawr, 2022**

## CD newydd


Yn ystod y mis rhyddhaodd Rhys Taylor a'i fand albwm: 'Gwena'. Lle mae'r RT Dixieband yn chwarae cymysgedd o ffefrynnau jazz Cymraeg a Saesneg ac un gân wreiddiol o'r enw 'Gwena'. Mae ar gael - £12.98 - ar holl blatfforms lawrlytho, siopau Cymraeg lleol, neu yn bersonol trwy ddanfon neges i Rhys trwy ei wefan

www.rhystaylor.co.uk Pris £12.98




## Cân yn ofer – Ysgol Plas-crug

Ar 8 Rhagfyr rhyddhaodd Sain sengl – fersiwn newydd o gân elusennol ar gyfer y Nadolig gan staff a disgyblion Ysgol Plas-crug yn cael eu harwain gan Greg Vearey-Roberts. Mae cân Edward H Dafis yn cael ei pherfformio gan ddisgyblion a staff yr ysgol – nifer ohonynt yn byw neu a chysylltiad a dalgylch y Tincer. Mae aelodau'r staff yn cyfeilio hefyd, - Mr Osian Wyn yn canu'r drymiau a Mr Meirion Roberts – gŵr un o'r athrawon ar y gitâr fas. Gellir ei phrynu ar iTunes, Spotify ac yb - ac mae yr elw yn mynd i Uned Angharad Ysbyty Bron-glais, Latch (Elusen cancr plant), WWF, Build Africa.




## 30 mlynedd yn ôl



Rhai o famau a phlant Goginan a Chwmbrwyno yn trosglwyddo arian a godwyd mewn 'Moes a phryn' a gynhaliwyd yn Sgubor fferm Troedrhiwcastell, ar Dachwedd 14. Rhannwyd yr elw rhwng Ysbyty Heol y Gogledd a pharti Nadolig plant Goginan a Chwmbrwyno. Derbyniodd Mr Wright, swyddog nyrsio yn Ysbyty Heol y Gogledd, yr arian a ddefnyddir i brynu offer yn yr ysbyty. (O *Dincer* Rhagfyr 1991)

## Gweithio gyda phlant bach er budd yr iaith Gymraeg

A fyddech chi'n mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i blant bach eich cymuned leol gan gadw'r iaith yn fyw yn eich ardal? Mae 'na lawer o gyfleoedd ar gael i drio am swyddi yn eich Cylchoedd Meithrin lleol.

Mae gweithio mewn Cylch Meithrin gyda phlant 2-5 oed yn gallu rhoi boddhad mawr i chi wrth weld y plant yn siarad Cymraeg am y tro cyntaf a rhoi hyder i'w rhieni i'w gyrru ymlaen i Addysg Gymraeg. Gallwn hefyd eich cefnogi i gael hyder i ail-gydio yn y Gymraeg os nad ydych wedi cael cyfle i'w defnyddio yn aml ers i chi adael yr ysgol.

Trwy weithio mewn Cylch Meithrin byddwch yn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os hoffech ystyried newid swydd, yna mae gennym gynlluniau hyfforddi amrywiol i'ch helpu i ennill cymhwyster addas tra'n gweithio.

I glywed mwy am ein holl swyddi, ewch i'n gwefan – www.meithrin.cymru/swyddi

Am sgwrs pellach mae croeso i chi gysylltu gyda Leanne Marsh, drwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio leanne.marsh@meithrin.cymru .

Cofion caredig,
Gwenllian
Dr Gwenllian Lansdown Davies
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

YTincer@googlemail.com

# Taith Gerdded Cwmsymlog

Dyma'r diweddaraf yng nghyfres Taith Gerdded yr Wythnos Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r daith yma yn cynnig tirwedd ysblennydd, gyda golygfeydd yn ymestyn o Bumlumon yn y dwyrain a chipolwg o'r môr yng Nghlarach yn y gorllewin. Mae'r pellter a'r tirwedd yn gwneud y daith yma yn un fwy heriol.

Cofiwch gadw pellter cymdeithasol bob amser, parchu'r amgylchedd a dilyn y Cod Cefn Gwlad.

Mae mwy o wybodaeth am gynllun 'Taith Gerdded yr Wythnos' ar gael ar dudalen Archwilio Ceredigion ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.




## Eisiau gweithio gyda phlant bach?




**Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.**

**Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!**

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

**www.meithrin.cymru/swyddi**

Angen cymhwyster gofal plant?
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

**www.meithrin.cymru/prentisiaeth**

Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru
neu ffoniwch 01970 639639

Rhif elusen: 1022320


## Colofn Ben Lake AS



I ble aeth 2021? Mae'n sicr wedi bod yn flwyddyn heriol arall i bob un ohonom - yn weithwyr allweddol, pobl hŷn, staff y gwasanaethau iechyd a gofal, plant a phobl ifanc a'n busnesau bach.

Mae'r heriau wedi parhau hefyd yn y byd gwleidyddol gydag ymateb i'r pandemig, negodi cytundebau masnach a delio gyda sgîl effeithiau Brexit yn llenwi amser gwleidyddion yn San Steffan. Yma yng Nghymru, ar drothwy tymor y gaeaf, mae Arweinydd Plaid Cymru Adam Price a Phrif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi Cytundeb Cydweithio. Rhaglen bolisi ar y cyd yw'r cytundeb ac mae'n ymdrin â 46 o feysydd amrywiol. Yn eu plith y mae ymrwymiad i gymryd camau radical ar fyrder i fynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi; a sefydlu cwmni, dan berchnogaeth gyhoeddus, i annog cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned.

Bydd Grŵp Senedd Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio dros y tair blynedd nesaf i wireddu'r polisïau sy'n rhan o'r cytundeb, a dwi'n ffyddiog y bydd nifer o'r polisïau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig yma yng Ngheredigion.


Un o'r meysydd sy'n cael tipyn o sylw yn y cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yw'r broses caffael. Y nod dros y tair blynedd nesaf yw gosod targedau ystyrlon i gynyddu lefel caffael sector cyhoeddus Cymru o'r lefel bresennol, sef 52%. Fel man cychwyn, y bwriad yw cynnal dadansoddiad manwl o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, a hyrwyddo prynu nwyddau a gwasanaethau o Gymru.

Mae gymaint o fanteision i bwrcasu'n lleol – mae'n cryfhau'r economi lleol yn sylweddol ac mae gweithredu cadwyni cyflenwi byrrach yn golygu costau cludo is a llai o effaith ar yr amgylchedd ac mae hefyd yn golygu llai o risg a gwasanaeth mwy dibynadwy.

Ar ddydd Sadwrn, 4 Rhagfyr, rydym yn dathlu Sadwrn Busnesau Bach – ymgyrch sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd busnesau bach ac i annog cwsmeriaid i 'siopa'n lleol' a chefnogi busnesau bach yn eu cymunedau. Ac er mor bwysig yw'r diwrnodau yma i godi ymwybyddiaeth, mae'n bwysig ein bod ni'n cefnogi ein busnesau bach lleol bob diwrnod o'r flwyddyn os ydyn ni am iddyn nhw ffynnu.

Felly ar drothwy'r flwyddyn newydd fel hyn, dewch i ni wneud addewid gyda'n gilydd i ganolbwyntio ar y lleol – siopa'n lleol, prynu'n lleol a chefnogi'n lleol. Nadolig Llawen i chi a'ch teuluoedd i gyd a blwyddyn newydd dda!

## Cronfa Eleri



**Blwyddyn 2021 – dros £20,800 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 13eg 2022**

**Amcanion Cronfa Eleri**

*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

# Myfyrdod y Nadolig

Rwy' wrth fy modd â'r olygfa o dop rhiw Cefn Llan wrth nesáu at y dibyn i lawr at Lanbadarn, a gweld holl oleuadau tref Aberystwyth yn disgleirio islaw gyda'r nos. Ac a dweud y gwir, rwyf wedi sylwi ar lawer mwy o oleuadau Nadolig tu fas i dai a gerddi'r fro y tymor hwn, yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae eirth gwynion, dynion eira llachar a choed amryliw yn pefrio ac yn goleuo'r düwch yn ein bröydd, a braf eu gweld hefyd!

Mae'n debyg fod ysfa ynom i ddechrau paratoadau'r Nadolig ynghynt eleni, ac o ystyried y flwyddyn a aeth heibio dan gysgod Covid-19, mae'r dyhead hwnnw am gael naws glyd a chysur y Nadolig yn un hawdd i'w ddeall.

A dyna yw craidd neges y Nadolig, yn'tyfe? Mewn beudy diarffordd yn y Dwyrain Canol, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl fe ddaeth Goleuni'r Byd i roi cysur a gobaith i bobl a oedd wedi cael hen ddigon ar fywyd.



'Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.'


Mae yna symboliaeth oesol i oleuni, ac mae cynnau cannwyll yn ystod cyfnod y Nadolig yn ein hatgoffa o'i ddelweddau pwerus. Rydym yn dal i'w gysylltu â phurdeb, daioni, gwirionedd, llawenydd, mawredd a rhyfeddod. Mae golau yn atyniadol, yn denu sylw, yn ein harwain ymlaen ac yn datguddio'r gwirionedd.

Rwy'n meddwl ein bod ni i gyd am brofi'r goleuni hwnnw yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan wybod yn sicr nad oes modd trechu gobaith. Neges flynydddol y Nadolig yw fod y goleuni i'w ganfod yn y baban bach yn nhywyllwch Bethlehem, ac 'ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd.'

**Rhodri Darcy**

Magwyd Rhodri ym Mhenrhyn-coch a'r cylch; mae ef a'r teulu yn byw yn Rhydaman ac mae'n Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu gyda Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

---




Richard Morgan. *D J James: ei fywyd a'i ddylanwad*.Aberystwyth: Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, 2021. 202t. £18

Mae'r bennod gyntaf yn agor ar nodyn cadarnhaol cynnes wrth gyflwyno hanes "dau Gardi mewn cariad – ac un os nad y ddau ohonynt â thrwyn busnes craff." Mae'r hanes diddorol, dynol a manwl sy'n dilyn yn dryllio dwy ystrydeb flinedig yn gyrbibion, diolch byth, sef 1.nad yw'r Cymro'n meddu ar fentergarwch, a 2. bod y Cardi'n gybyddlyd

Mae'r gyfrol yn rhannu'n ddwy ran. Yn y gyntaf ceir hanes dechreuadau David James o'r adeg pan brynodd ei rieni, John a Catherine, siop i werthu llaeth a bwydydd eraill yn ardal Bromley-by-Bow ar ochr ddwyreiniol Llundain. Mae'r darlun hudolus a byrlymus a geir yma o fywyd a llafur caled y Cymry niferus a oedd wedi dilyn yr un llwybr yn tystio i ymchwil manwl yr awdur i'r cyfnod a'r cefndir. Gredech chi fod 24,000 o wartheg godro yn Llundain yn 1871?!

Ar ôl geni dau fab iddyn nhw penderfynwyd nad Llundain oedd y lle gorau i'w magu. Felly, yn 1897, pan oedd David James yn ddeg oed, prynwyd plasdy Pantyfedwen yn ardal Ystrad Fflur - a dyna gyflwyno'r enw Pantyfedwen i fywyd y teulu, enw a dyfodd i fod yn gyfystyr â haelioni dyngarol i ni'r Cymry. Er ei ymlyniad wrth yr enw dim ond am gyfnodau byrion y bu David James yn byw yno. Yn Llundain y treuliodd ei fywyd - yn dysgu, yn hogi, yn mentro, ac yn elwa ar ei fentergarwch, a dyfodd o'r siop laeth i'r cwmni bwydydd anifieliaid *James and Son* (sy'n dal i weithredu yn Awstralia, Seland Newydd a'r Ariannin heddiw), ac i berchnogaeth ar sinemâu arloesol uchelgeisiol yn ochr orllewinol Llundain. Dyna wrthbrofi'r ystrydeb gyntaf.

Yn yr ail ran hanes sefydlu a datblygu'r ymddiriedolaethau sy'n cael sylw – gwireddu awydd David James i wneud gwahaniaeth, i estyn cymorth lle bo angen, weithiau gan osod amodau herfeiddiol yn ôl ei weledigaeth ef ei hun a hynny'n esgor ar anghytuno llym, fel a ddigwyddodd ynghylch uno'r enwadau.

Pwy feddyliai ei fod wedi awgrymu, wrth drafod cynnal eisteddfod ym Mhontrhydfendigaid yn 1963, y gellid cael cystadleuaeth "*bathing beauties*" yn y rhaglen?! Perodd y £300 a gynigiwyd am gyfansoddi emyn gryn syfrdandod hefyd, gan ysgogi'r englyn canlynol gan y diweddar John Rowlands, Eifionydd:

"Yr Emyn Trichant"
Hyd gyrion bro'r gogoniant – y mae sôn
Am siec a gawsant,
Er hynny, bois, mae'r 'Hen Bant'
Yn trechu'r emyn trichant.

O ystyried cynnwys dwy brif ran y llyfr, a'r dorreth o wybodaeth fanwl am arian a phobl yr ymddiriedolaethau sydd yn yr Atodiadau, ceir yma deyrnged gynhwysfawr, barchus ac onest i David James. Mae'n ddarlun clir o ddeuoliaeth bywyd dyn oedd yn ymglywed â'i wreiddiau yn naear ardal Ystrad Fflur ond a dreuliodd ei fywyd yn gweithio ym myd heriol, cyfalafol, caled, busnes mentergarol. Cydiodd yntau ei ddeufyd at ei gilydd drwy gyfeirio ei elw materol yn ôl at ei wreiddiau.

A dyna ddrylio'r ail ystrydeb.

Diolch i Richard Morgan am gyfrol gofiadwy.

**Llinos Dafis**

**Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r gyfrol ar gael yn eich siopau lleol neu o Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen (01970 *612806* ; post@jamespantyfedwen.cymru)**



## Y Borth

**Danteithion y Dolig**
Bu rhai o wirfoddolwyr a staff Hyb Cymunedol y Borth yn cludo pecynnau yn llawn danteithion Te Prynhawn y Dolig o gwmpas y pentre ddydd Gwener 10 Rhagfyr. Diolch i Amanda a Dylan am baratoi'r cacennau cartref, ac i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith.


**Dysgu Coginio**
Caiff sesiwn goginio arbennig y cogydd profiadol Amanda Keene ei chynnal yn yr Hyb ar ddydd Mercher 4 Ionawr 2022. Bydd hi'n dangos sut mae creu prydau syml, iachus a maethlon ar gyfer y teulu oll – a bydd cylfe i flasu'r bwyd wedyn. Bydd Amanda hefyd yn cynnal sesiynau coginio yn yr Hyb ar gyfer aelodau Clwb Ieuenctid y Borth rhwng 11 – 17 oed. Am fanylion, ebostiwch amanda@borthfamilycentre.co.uk.

**Grwp Cerdded i Rieni Newydd**
Ar 6 Ionawr bydd Charlie Priddy o'r Hyb yn arwain y cyntaf mewn cyfres o deithiau Cerdded a Sgwrsio i rieni a babanod. Bydd y daith gyntaf yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth, gan ddechrau am 10yb a gorffen erbyn hanner dydd. Dyma gyfle i rieni newydd fynd allan i gwrdd â phobl eraill sydd newydd gael babi. Mae'n rhan o brosiect Cerdded Er Budd Lles Gorllewin Cymru. Am fanylion pellach, ewch i wefan yr Hyb neu ebostiwch charlie@borthfamilycentre.co.uk.

**Ailagor Canolfan Celfyddydau a Chymunedol**
Ar ôl bod ynghau oherwydd y cyfnod clo a gwaith adnewyddu, fe ailagorodd canolfan gymunedol a chelfyddydol Star of the Sea yn y Borth ar ddydd Sadwrn 11 Rhagfyr gyda sioe agoriadol yn y min nos. Drannoeth y sioe, cafodd Ffair Grefftau'r Nadolig ei chynnal yn yr hen gapel rhwng 11yb a 5yp.

## Storm Barra





Cafodd rhannau o'r pentref eu taro gan wyntoedd cryfion Storm Barra nos Fawrth 7 a bore Mercher 8 Rhagfyr. Daeth y môr dros y wal amddiffyn gyferbyn â siop Premier Stores am gyfnod, gyda *dŵr* yn llifo i lawr y ffordd tuag at yr orsaf reilffordd. Cafodd rhan o wal y môr yn y maes parcio wrth ymyl tro Ynys-las ei sgubo ymaith yn ystod y storm hefyd. Diolch i Neil Mathews am y lluniau.

**Arddangosfa Gelf**
Mae arddangosfa o waith yr artist Paul Bailey yn cael ei chynnal yn Rhif 2 London Place tan 2 Ionawr 2022. Lliwiau'r Arfordir yw teitl yr arddangosfa sy'n cynnwys golygfeydd oddi ar Geredigion a Sir Benfro. Cafodd y gwaith ei greu mewn ymateb i gyfyngiadau'r clo a'r pleser o gael bod allan yn yr awyr agored. "Mae'r traethau yma wedi fy nghyfareddu ac wedi dod â chymaint o lawenydd i mi eleni," meddai'r artist, sy'n byw yn Llandrindod. Manylion pellach: www.2londonplace.co.uk

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau mawr i Harri Prytherch ac Emily Ruth Davies ar eu dyweddiad ar ddydd Iau 2 Rhagfyr. Mae Harri yn fab i Esther Prytherch a Rhodri Edwards o'r Borth, ac mae Emily yn hanu o Gaerfyrddin. Mae'r ddau yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd.

**Clwb Golff y Borth ac Ynys-las**
Ers diwedd mis Hydref, mae'r cystadlaethau yn adran y dynion a'r menywod wedi bod ar drywydd y Twrci! Mae cystadlu brwd yn



## Canolfan Ymwelwyr Ynys-las

Am y tro cyntaf erioed, mae Canolfan Ymwelwyr Ynys-las ar agor dros y gaeaf. Bydd gweithdai, sgyrsiau a digwyddiadau arbennig eraill yn cael eu cynnal yno, a'r manylion ar dudalen Facebook neu Instagram y Ganolfan. Mae siop yno hefyd, yn gwerthu hamperi Nadolig, llyfrau, Gin Distyllfa Dyfi, rym Barti Ddu a nwyddau Cymreig eraill. Mae'r tai bach hefyd ar agor dros fisoedd y gaeaf.

digwydd pob penwythnos mewn amrywiaeth o ffurfiau gêmau golff er mwyn ennill y gwobrau. Dyma'r enillwyr hyd yn hyn:

**Adran y Dynion**
31 Hydref: 1 Elgan Rees – nett 69;
2 Peter Basnett – nett 73
7 Tachwedd: 1 Ronald Thomas – 41 pwynt
2 Melvyn Evans – 40 pwynt
14 Tachwedd: 1 Richard Wyn Jones – Bogey 5
2 Martin Haynes – Bogey 5
21 Tachwedd: 1 Richard Lucus – nett 66
2 David Worral – nett 67

**Adran y Menywod**
30 Hydref: 1 Karen Evans – nett 77
2 Doreeen Jones – nett 78
13 Tachwedd:1 Clare Jones – 42 pwynt
2 Jane Raw Rees – 37 pwynt
20 Tachwedd: 1 Ruth Morris – 34 pwynt
2 Kay Thomas – 33 pwynt

**Elusen y Capten**
Yn ystod ei flwyddyn fel capten y Clwb, casglwyd £1,879 ar gyfer yr elusen o ddewis Jeff Evans, sef Prostate Cancer UK. Hoffai Jeff ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu.





**Llunio Storïau**
Bydd tri artist lleol yn cynnal gweithdai darlunio yn y Borth yn ystod mis Ionawr. Stuart Evans o'r pentref fydd yn arwain y sesiwn gyntaf ar ddydd Iau 13 Ionawr; Ruth Jên o Dal-y-bont ar ddydd Iau 20 Ionawr, a Kim James Williams ar 27 Ionawr. Caiff y gweithdai eu cynnal yn Hyb Cymunedol y Borth rhwng 2 a 4yp, ac mae'r hyfforddiant a'r deunyddiau i gyd yn rhad ac am ddim.

Dywedodd Stuart Evans: "Ein nod yw annog pobl o bob oed i gymryd rhan – y rheiny sydd erioed wedi darlunio o'r blaen yn ogystal â'r sawl sy'n mwynhau gwneud gwaith celf. Dyma gyfle i roi cynnig ar dechnegau darlunio newydd a gwahanol. Byddwn yn dod ag eitemau o gasgliadau Amgueddfa Ceredigion, ac yn eu trafod a'u darlunio nhw. Rydyn ni eisiau canfod ffyrdd o adrodd straeon hen wrthrychau drwy hyrwyddo sgiliau darlunio, a thrwy hynny ymgysylltu â hanes mewn ffyrdd newydd."

Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion sy'n trefnu'r prosiect, gyda chymorth ariannol gan Sefydliad Laura Ashley. Mae nifer cyfyngedig o leoedd ac felly mae cadw lle mlaen llaw yn hanfodol. Gellid gwneud hynny drwy ebostio helen@borthfamilycentre.co.uk.

**77 oed ac yn dal i redeg!**
Pen blwydd Hapus hwyr i Gillian Parry o'r Borth oedd yn 77 oed ym mis Tachwedd. Cwta ddwy flynedd sydd ers i Gill ymddeol o'i swydd yn Adran Ddylunio Prifysgol Aberystwyth a hynny pan oedd hi'n 75 oed. Mae wedi cadw'n brysur ers hynny, ac yn cerdded neu'n rhedeg tua 10 cilomedr yn ddyddiol bron. Mae hefyd yn gwneud dosbarth Pilates bob wythnos ac yn aelod selog o glwb badminton y Borth sy'n cwrdd rhwng 7-9yh yn y Neuadd Gymunedol bob nos Fawrth. Mae Gill yn dweud taw'r gyfrinach i gadw'n heini yw dal ati, peidio stopio a bwyta'n iach.



## Llandre

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Nia a Huw ar farwolaeth William Ellis Davies – gynt o Landre- yn 98 oed; gŵr y ddiweddar Nanno. Cynhaliwyd yr angladd ar Ragfyr 4 yn Eglwys Genau'r-glyn.

Cydymdeimlwn â Roger Haggar a'r teulu, Sycamores, ar farwolaeth Doreen May Haggar ar 30 Tachwedd. Cynhelir yr angladd yn Eglwys Genau'r-glyn ar 18 Rhagfyr am 11.00.

## Dol-y-bont

**Croeso**
Estynnwn goeso i Alan a Felicity Cunliffe sydd wedi symud i fyw i Running Waters. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

GWE Cambrian WEB
**Gwefannau Gwych o Gymru**
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
**Cysylltwch Heddiw**
info@cambrianweb.com
01970 623 906

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816 / 01974 261758

# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Bu'r Clwb yn brysur eto mis yma a bu nifer yn cystadlu yn Niwrnod Maes y Sir yn Nhrawscoed. Diolch i Elin, Bedwyr, Richard, William, Sara, Alwenna, Jona a Gwenno am gystadlu a gwneud mor dda ar y ffensio, fideo hyrwyddo'r Ffair Aeaf, barnu stoc, cystadleuaeth ATV, y ciwb a gyrru tractor. Hefyd, fe gynrychiolodd Beca ni yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru ar y gystadleuaeth Cân Sioe Gerdd.

Cawsom gryn hwyl yn chwarae golff yn Llanrhystud ar Dachwedd yr 16eg ac fe gawsom wledd o fwyd wedyn wrth wylio gêm bêl-droed Cymru yn y clwb. Yr wythnos ganlynol, buom yn brysur yn gwneud addurniadau Nadolig o dan arweiniad Mair Nutting. Maent i gyd yn hardd iawn a bellach ar ein coed Nadolig. Wythnos ddiwethaf, bu criw ohonom yn chwarae gêmau amrywiol yn Neuadd Rhydypennau gan gynwys 'Allwch Chi Jenglyd' a drefnwyd gan Sara a Sera. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Elan, Lois ac Ioan am ddod yn fuddugol yn y siarad cyhoeddus Saesneg dan 14 oed yn Felin-fach. 'Rydyn yn edrych mlaen fis yma at fynd o amgylch yr ardal i ganu carolau. Nadolig Llawen a Blwyddyn dda i bawb!

**Elen Madrun**







ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau,
Llandre,
Aberystwyth
SY24 5BS

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website
Trefeurig8
whhowells@gmail.com




# Cwis Nadolig Y Tincer

**Cyfle eleni eto i gael ychydig o hwyl ar ôl bwyta'r pwdin Nadolig ac ennill gwobr o £10!**

**Eleni penderfynodd y tincer bach greu *Tincerpedia* Cymru ond, gwaetha'r modd, nid yw ei wybodaeth o hanes ei genedl gystal â Geraint H Jenkins a llithrodd un camgymeriad i ddeg o'i ffeithiau. Tybed allwch chi helpu'r tincer bach drwy gywiro'r ffeithiau?**

**Anfonwch eich atebion i gyrraedd cyn hanner dydd, dydd Mercher, Ionawr 5 2022 at: Gareth William Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Ceredigion SY24 5BA neu os dymunwch anfonwch eich deg ateb at gwjones99@aol.com**

1. Ar 11 Rhagfyr 1282 cafodd Llywelyn ei ladd ger afon Wnion gan filwr o sir Amwythig.
2. Ym Medi 1400 cafodd Owain Glyndŵr ei gyhoeddi'n Dywysog Cymru yng Nglyncorrwg.
3. Yn 1588 cyhoeddwyd cyfieithiad William Morgan, ficer Llansantffraid-ym-Mechain, o'r Beibl i'r Gymraeg.
4. Yn Ionawr 1739 cafodd Twm o'r Llan, sy'n enwog am ysgrifennu anterliwtiau, ei eni yn Llannefydd.
5. Yn 1800 pan oedd yn un ar bymtheg oed cerddodd Mari Jones yr holl ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i'r Bala i brynu Beibl.
6. Yn 1900 enillodd James Keir Starmer a anwyd yn Lanarkshire sedd etholaeth Merthyr.
7. Yn 1929 yng Nghaernarfon cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y tro cyntaf erioed ond dim ond am ddau ddiwrnod.
8. Yn dilyn cystadlu ar gystadleuaeth gan bop yn Eisteddfod Llanddona yn 1967 cafodd Tony ac Alma wahoddiad i berfformio ar y teledu am y tro cyntaf ar raglen TWW, Y Dydd.
9. Ar y cyntaf o Dachwedd 1982 dechreuodd S4C ddarlledu o Clos Maria yng Nghaerdydd a Robin Jones yn ymddangos fel y cyflwynydd cyntaf.
10. Ar y cyntaf o Orffennaf 2016 yn y Stade Pierre Mauroy yn Lille enillodd Cymru gêm beldroed yn erbyn Rwsia o dri i un.


William Morgan



Os bydd mwy nag un ateb cywir yna, fel arfer, rhoir yr enwau yn het y golygydd a'r enw cyntaf i'w dynnu allan fydd yn ennill y £10. Pob lwc!


Jamer Keir Starmer


**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF / CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

Trydan
**WILL DAVEY**
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Penrhyn-coch

**Eglwys St Ioan**

*Rhagfyr*

19 (Adfent 4) Gwasanaeth carolau teuluol (dwyieithog) 2.30pm

24 (Noswyl Nadolig) Cymun y Nadolig (dwyieithog) 10.00pm

**Horeb**

*Rhagfyr*

19 10.30 Gwasanaeth Nadolig Oherwydd y pandemig ni fydd oedfaon fore'r Nadolig nac ar Ragfyr 26

*Ionawr*

2 2.30 Y Parchg Peter Thomas

16 2.30 Y Parchg Peter Thomas

**Cymdeithas y Penrhyn**

Gwenallt Llwyd Ifan, enillydd y Gadair yn Eisteddfod AmGen eleni, oedd ein siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Tachwedd. Disgrifiodd sut yr aeth ati i ysgrifennu'r awdl a sut y bu'n rhaid ei chreu mewn cwta ddau fis oherwydd amgylchiadau anarferol y gystadleuaeth eleni.

Roedd gofyn am awdl hyd at 200 llinell o hyd ar y testun 'Deffro' a dewisodd Gwenallt ei hysgrifennu yn y wers rydd gynganeddol. Mae'n disgrifio ei brofiad yn rhedeg i ben mynydd Gwylwyr yn Nefyn pan oedd yno ar wyliau. Oddi yno gallai weld Llŷn a bae Ceredigion a theimlai fel 'Un ar erchwyn hanes' gan ei fod yn ymwybodol ein bod, fel Cymry, wedi ein gwthio i gilcyn o dir ar yr ymylon ond, ar y llaw arall, bod hwn yn gyfnod o ddeffro yn wleidyddol ar ôl y cyfnod clo, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

Soniodd am y seremoni, hollol gyfrinachol, a hollol wahanol i'r adeg pan enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1999 ym Môn. Y tro hwn, dim ond y teulu, pedwar ohonyn nhw, oedd y gynulleidfa. Diolch am noson ddifyr iawn yn ein tywys drwy'r broses o ysgrifennu a'r seremoni wobrwyo. Gellir gweld y gwaith buddugol yng *Nghyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Amgen 2021*, pris £10.00.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Dafydd Ifans a'r teulu, Rhandir, ar farwolaeth cyfnither i Dafydd – Y Parchg Mima Morse, Llangeitho ar Dachwedd 11.

Sharon a Chris Wilson, Owain, Tomos a Gwion, Dôl Helyg ar farwolaeth mam Sharon, Miriam Lloyd Evans, Waunfawr ar Dachwedd 16.

**TECAWÊ NADOLIG!**

Mae Tafarn y Roosters yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn cynnig Cinio Nadolig i fynd adre gyda chi! Un cwrs £8.95. Dau gwrs £14.95; rhaid archebu erbyn Rhagfyr 19eg, a chasglu eich bwyd ar noswyl Nadolig rhwng 9.00 am a 12.00 pm(hanner dydd)! Prydau i fynd yn unig fydd ar gael Suliau 26/12 a 2/1/22. Cysylltwch am ragor o fanylion! 01970 828992.




**Clwb Sul Horeb**


Aelodau Clwb Sul Horeb yn paratoi ar gyfer Y Blygain rithiol.



**Cylch Meithrin Trefeurig**

Plant Cylch Meithrin Trefeurig wedi gwisgo eu pyjamas ar gyfer Plant mewn Angen. Casglwyd £82.

**Tai Gogerddan**




Bydd gwylwyr craff – neu rai fu'n teithio heibio y rhes tai tra bu ffilmio ymlaen a goleuadau traffig yn rheoli y ffordd – wedi sylwi ar y defnydd wnaed o'r tai ger y rhyd yn y gyfres deledu Craith ar S4C.

Prynwyd Gogerddan gan y Brifysgol ym 1953 a symudodd y Fridfa allan o adeilad y Brifysgol yn y dref yno. Adeiladwyd y rhes tai yma ar gyfer y gweithwyr gyda theuluoedd yn symud iddynt ym 1960.

Fe'i henwyd gan Llew Phillips – oedd yn swyddog cyswllt Plas Gogerddan – gan ddefnyddio enwau coed – o'r un agosaf at Ogerddan i'r rhyd. Llwyn Bedw, Rhos Helyg, Gelli Deg a Dôl y wern. Ail enwyd yr adeilad fu yn dafarn – y Royal Oak hefyd yn Glyn Deri.

Roedd tai ar fferm y Coleg ym Morfa Mawr, Llan-non wedi eu henwi ar ôl enwau person. Credir mai Cae Tudur a Maes Elwyn yw y rheiny. Gwerthodd y Brifysgol dai Gogerddan yn ddiweddar.



**Manteisiodd Mari a Sion Gibson ar ddiwrnod agored lle cafodd y cyhoedd gerdded rhan o ffordd osgoi newydd y Bontnewydd a Chaernarfon. Roedd yn gyfle iddynt gael gweld lle bu dad Rhodri yn gweithio fel Prif Asiant Llywodraeth Cymru ers tair blynedd. Mae'r Gwaith wedi costio £135 miliwn ac mae disgwyl i'r ffordd fod ar agor i gerbydau ddechrau'r flwyddyn nesaf.**



**Llongyfarchiadau i Mandy Glennie ar raddio gyda Thystysgrif Addysg Uwch mewn Astudiaethau Gofal Iechyd mewn seremoni yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddi wrth fynd i'w hail flwyddyn o'i gradd nyrsio yn Ionawr.**

## Egryn Evans, Glanceulan

Bu farw Egryn Evans, Glanceulan ar 20 Tachwedd yn sydyn yn Ysbyty Bron-glais yn 93 oed. Dyma addasiad o'r deyrnged ddarllenwyd yn ei angladd yn Amlosgfa Aberystwythar 9 Rhagfyr.

Ganwyd Egryn yng Nghwmllinau, ger Machynlleth ym 1928, ei fagu yn Hafodty, Llanegryn gan fynd i'r ysgol yn Nhywyn. Bu'n gweithio i'r gŵr busnes a gwleidydd Syr Haydn Jones (Aelod Seneddol Rhyddfrydol Sir Feirionydd) ar ôl gadael yr ysgol cyn cael gwaith gyda'r gwerthwr nwyddau haearn Humphrey Jones yn Nhywyn.

Dyma'r adeg y cyfarfu a phriodi ei wraig, Betty; sefydlodd y ddau eu cartref yn Nhywyn ac yn y man ganwyd eu mab cyntaf Kevin ym 1958 a John ym 1962. O Dywyn fe symudon nhw i Ddolgellau – tref enedigol Betty, lle bu Egryn yn gweithio fel rheolwr storfa olew.

O Ddolgellau fe symudon nhw unwaith eto – y tro yma i Dal-y-bont; gweithiai Egryn fel trafaeliwr i'r masnachwr adeiladu J D Lloyd a'i Feibion. Fel rhan o'r swydd byddai yn gyrru trwy ddarnau helaeth o ganolbarth a gogledd Cymru olygodd iddo gyfarfod llawer o bobl wahanol; roedd yn ei elfen.



O Dal-y-bont i Benrhyn-coch oedd symudiad olaf Egryn a Betty lle setlodd a mwynhau ei flynyddoedd olaf. Bu'r ddau am am lu o wyliau tramor gyda theulu a threuliwyd llawer i awr yn cerdded o gwmpas yr ardal. Bu farw Betty yn 2005 ond cariodd Egryn ymlaen.

Gofalodd am ei fyngalo a'i ardd lle roedd pob dim fel pin mewn papur ganddo. Tra'n garddio byddai yn siarad a phawb oedd yn pasio. Câi bleser mawr hefyd o bori trwy'r albymau lluniau oedd ganddo.

Gallai droi ei ddwylo at unrhyw beth – addurno, ailfodelu tai. Roedd yn arfer glanhau a choginio a gwarchod y bechgyn ymhell cyn i'r term 'dyn newydd' ddod yn boblogaidd. Wedi ymddeol datblygodd rhyw fodlonrwydd yn ei fywyd; roedd hapusaf gyda phethau syml bywyd – yr ardd, diwrnod o bysgota, cerdded y prom a gwerthfawrogi yr hyn oedd ganddo. A hefyd, wrth gwrs, y teulu- roedd wrth ei fodd yn eu cwmni. Mae'n cydymdeimlad yn fawr â Kevin a John a'u teuluoedd estynedig.

## SIOE AEAF



1af



3ydd



2il

Llongyfarchiadau i ddwy aelod o gangen Penrhyn-coch o Ferched y Wawr am ennill yng nghystadleuaeth Crefft - Clustog Nadoligaidd yn Llanelwedd.

1af Sharon Jones  
2ail Meinir Roberts  
3ydd Delyth Jones


Yn ail roedd Meinir Roberts o Gangen Llwyndyrus, Gwynedd (gynt o Gapel Bangor)

## Canlyniadau Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tim 1af Penrhyn-coch**  
*Tachwedd*  
20 Treffynnon 5  
Penrhyn-coch 0  
*Rhagfyr*  
4 Rhuthun 5 Penrhyn-coch 1

**Eilyddion Penrhyn-coch**  
*Tachwedd*  
13 Eilyddion Penrhyn-coch 7  
Eilyddion Penparcau 1  
20 Eilyddion Penrhyn-coch 10  
Eilyddion Dolgellau 0  
27 Eilyddion Penrhyn-coch 4  
Eilyddion Y Trallwm 2  
*Rhagfyr*  
4 Eilyddion Penrhyn-coch 3  
Eilyddion Caersws 2

**Oisin Lludd, aelod o garfan ail dîm Penrhyn-coch, yn cwrdd ag un o'i arwyr yn Anfield yn ddiweddar: Steve Staunton, Lerpwl a Gweriniaeth Iwerddon.**



# Bow Street

**Capel y Garn**

Gwasanaethau

*Rhagfyr*

19 Gwasanaeth Nadolig teuluol am 10 o'r gloch. Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau dros Zoom am 5 o'r gloch

25 Gwasanaeth cymun ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

26 Oedfa fer i'r Ofalaeth am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog dros Zoom

*Ionawr*

2 Parch Athro John Tudno Williams am 10 o'r gloch. Myfyrdod a gweddi ar ddechrau blwyddyn dan arweiniad y Gweinidog Cyfarfod Zoom am 5 o'r gloch

9 Gweinidog am 10 o'r gloch

16 Gweinidog – cymun am 10 o'r gloch

23 Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

30 Dr Rhidian Griffiths am 10 o'r gloch

**Suliau Noddfa**

*Rhagfyr*

26 Dim Oedfa

*Ionawr*

2 Uno yn y Garn.

9 Richard Lewis. Cymundeb

16 Cyfeillach

23 Richard Lewis

30 Judith Morris

**Capel Noddfa**

Cafwyd oedfa arbennig iawn yn Noddfa ddiwedd Tachwedd, yng nghwmni Siôn Meredith. Yn ychwanegol at ei swydd yng ngofal 'Cymraeg i Oedolion' yn y Brifysgol, mae Siôn hefyd yn un o ymddiriedolwyr Aberaid, a gwaith yr elusen honno'n helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Ngheredigion oedd testun y sgwrs. Roedd hyn yn boenus o amserol, a ninnau newydd glywed y newyddion am y rhai a foddwyd yn y Sianel. Atgoffwyd ni mai pobl yn union fel ni yw'r ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid, ond bod amgylchiadau enbydus wedi'u gorfodi i ddianc o'u cartrefi – mae perygl i ni anghofio hyn yng nghanol y dadlau gwleidyddol. Clywyd am y rhai o Syria sydd eisoes wedi ymgartrefu yma, a'r heriau wynebwyd, a bod bwriad i gynnig cartref i rai o Afghanistan yn Aberystwyth yn fuan. Cyfeiriodd Siôn at y cynllun cinio Syriaidd (Syrian Dinner Project), ac mae modd gweld y manylion ar y we. Am syniad gwych – plis cefnogwch! Diolch yn fawr i Siôn am y sgwrs ddadlennol ac am ein hysgogi fel capel i gyfrannu at elusen sy'n gwneud gwaith dyngarol arbennig iawn.

Mae'n dymor yr Adfent, cyfnod pryd y dylwn feddwl am eraill, a rhoi'n hael o'n digoni. Roedd casgliad y Sul hwnnw yn Noddfa, a'r Suliau dilynol, yn mynd at Aberaid. Os hoffech gyfrannu, mae manylion Aberaid ar ei thudalen Facebook, neu cysylltwch ag un o swyddogion Noddfa.



**Pen blwydd arbennig**

Llongyfarchiadau mawr i gangen Bow Street o Sefydliad y Merched ar ddathlu ei phen blwydd yn 100 yn ddiweddar. Er mai bychan yw'r aelodaeth erbyn hyn mae'r ysbryd a'r ymroddiad mor fyw ag erioed. I nodi'r achlysur cafwyd dathliad arbennig yn y Welsh Black yn Bow Street. Ymlaen fo'r nôd yn awr!



Daeth llwyddiant i ran Elgan a Siwan Evans, Pantcoch, Tal-y-bont yn Ffair Aeaf Lloegr yn Swydd Stafford ac wedyn yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd gyda'r bustach du  Pennantlliw Zed. Llongyfarchiadau iddynt. Da deall i'r bustach gael ei brynu gan Llyr James, cigydd Bow Street fu'n brysur yn prynu da byw o'r safon uchaf yn barod at y Nadolig. Fe'i gwelir yn y llun gydag Elgan.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Sian a Jonathan Eurig a'r teulu, 4 Cainfallen, ar golli tad Sian - Gwilym Griffiths - yn ddiweddar. Yr ydym hefyd yn anfon ein cofion at y teulu yn y Gogledd.

**Ymddeoliad**

Pob dymuniad da i Emyr Lloyd Jones, Cân y Gwynt, ar ei ymddeoliad ddiwedd mis Tachwedd a phob dymuniad da am flynyddoedd o iechyd, a hapusrwydd eto.


Mae'n werth nodi mai ymddeol ar ôl deugain mlynedd gyda'r Morganiaid ym Maesnewydd, Tal-y-bont, y mae Emyr. Tipyn o gamp yn wir ac yn llawn haeddu cydnabyddiaeth swyddogol y Sioe Frenhinol.

**Gradd uwch**

Llongyfarchiadau i Sara Huws (Maes y Garn, gynt) ar ennill gradd MSc gydag anrhydedd mewn Dulliau Ymchwil Cymdeithasol yng Ngholeg Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe.

**Cymdeithas Lenyddol y Garn**

Y wraig wadd yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Gymdeithas, a gynhaliwyd dros Zoom, nos Wener, 19 Tachwedd, oedd Gwenllian Grigg, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi ar ei gwaith fel 'Menyw Newyddion'. Cyfeiriodd at ei magwraeth yn Nhalgarreg, a ysgogodd ei diddordeb mewn materion cyfoes, a'i phrofiad yn ar ôl dilyn cwrs prifysgol yn gwirfoddoli



gyda ffoaduriaid yn Slofenia. Yn dilyn hynny, ymunodd â staff y BBC ac mae hi bellach yn llais cyfarwydd fel un o gyflwynwyr *Dros Frecwast* ar Radio Cymru. Roedd clywed am y gwaith paratoi manwl sy'n digwydd er mwyn sicrhau rhaglen raenus a chytbwys bob bore, a'r angen i fod yn hyblyg gan ymateb i amgylchiadau sy'n gallu newid ar amrantiad, yn agoriad llygad yn wir. Cyflwynwyd Gwenllian gan Gadeirydd y Gymdeithas, Mrs Liz Lloyd Jones, a diolchodd iddi am sgwrs oedd yn rhoi cipolwg difyr a dadlennol ar ei gwaith.

# Cylch Meithrin Rhydypennau









LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth
www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth
JENKINS
Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Talybont

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

# Capel Bangor /Pen-llwyn

**Diolch**
Dymuna Delyth a Iona, Maencrannog, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn marwolaeth eu mam (Annie Mary Davies) yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd pob carden, neges ac ymweliad, yn ogystal â'r blodau, y cymwynasau a'r cyfraniadau (cyfanswm o £1,210) tuag at HAHAV.

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr. Islwyn Jones, Waunfawr erbyn hyn, ond a fu yn byw yn Tawelfan, Capel Bangor am lawer blwyddyn. Bu ef a'i briod hawddgar, Angharad yn ran anatod o'r gymdeithas a thrist iawn oedd derbyn y newyddion am farw Angharad y mis diwethaf a hithau ar ymweliad â 'i hwyres ar y pryd yn Huddersfield. Mae ein meddyliau a'n gweddïau gyda chi fel teulu ar yr adeg drist yma yn eich hanes.

Hefyd daeth y newydd trist bore Llun, 6ed o Ragfyr, i Mr. Malcome Richards, Murmur y coed ein gadael yn ddisymwyth ar ol cystudd byr. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Margaret, Alistair a'r teulu a'u meibion Lee a Keith a'u teuluoedd yn eu colled â'u hiraeth.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau cynnes i Mr. John Howells, Pencoed wrth iddo ddathlu ei ben blwydd ar y 7fed o Ragfyr yn 80 oed. Pob dymuniad da i'r dyfodol, rhaid bod yn garcus bellach, ac anghofio ambell arwerthiant cist car pan nad yw'r tywydd yn ffafriol! Ymlaen bo'r nod.

**Merched y Wawr**
Ar ddiwrnod gwyntog gaeafol ynghanol storm Bara, mentrodd deg aelod hyderus i fyny i Consti i fwynhau cinio Nadolig Cangen Melindwr o Ferched y Wawr. Gostegodd y gwynt a diflannodd Ifan y Glaw erbyn hanner dydd a chyrhaeddom y copa yn ddiogel. Roedd croeso hyfryd yn ein disgwyl a chawsom ystafell i ni ein hunain a chinio gwerth



chweil i ddilyn. Nid oedd gŵr neu wraig wadd gennym eleni ond cawsom orig bleserus dros ben yn cymdeithasu ymysg ein gilydd cyn mwynhau shwrnai yn ôl yn y trên a'r golygfeydd yn odidog. Prynhawn cofiadwy er gwaethaf y storm a'r diolch i'n Llywydd, Lis Collison yn bennaf. Dyma ddau lun, un wrth fentro i fyny yn y trên, a'r llall ar ddiwedd ein hymweliad a phob un wedi cael ei blesio a'r fenter ynghanol gaeaf llwydaidd ac yn edrych ymlaen at ddathlu'r Nadolig gyda hyn.

**Cynhaeaf eleni yn Tŷ Bach Twt, Catalonia**
Efallai i'n darllenwyr rheolaidd gofio'n erthygl yn rhifyn Rhagfyr y llynedd o'r *Tincer* am gwpl lleol o Gapel Bangor sy'n cynhyrchu olew olewydd dihalog ar eu fferm yng Nghatalonia.

Wedi dychwelyd erbyn hyn nôl adre i Gapel Bangor gyda'u holew, mae Helen a Selwyn Williams yn rhoi cipolwg i ni o'r gwaith sydd ynghlwm a'r cynhaeaf olewydd ar eu fferm:

Gan fod cyfyngiadau teithio Cofid wedi eu cadw gartref yng Nghymru eleni, roedd gwaith caled a grymus yn eu disgwyl y tro hwn pan gyrhaeddon y fferm yn ganol mis Medi. Ar ôl blwyddyn lawog yng Nghatalonia, ynghyd â'r tocio a'r gwella o'r blynyddoedd blaenorol, roedd ganddynt y cnwd gorau maent wedi ei gael hyd yma!

Felly, roedd digon i'w wneud wrth dorri'r glaswellt hir i gael llwybr clir i'r coed, a sicrhau bod y ddaear o amgylch pob coeden yn glir ar gyfer gosod y rhwydi.

Cyrhaeddodd amser y cynhaeaf a dechreuodd y diwrnod, fel pob diwrnod cynhaeaf, cyn y wawr.

Tra roedd Helen yn paratoi fflasgiau o goffi, llaeth poeth a diodydd oer i gadw pawb i fynd drwy'r dydd, byddai Selwyn yn pigo'r dynion i fyny a oedd yn eu helpu, yn barod i bawb ddechrau gweithio am 8 y bora, fel roedd yr haul yn codi dros y Delta.

Mae'r cwpl yn ymdrechu i ffermio'n foesegol ac yn gynaliadwy trwyddi draw. Wrth chwilio am help gyda'r cynhaeaf, aethant ati gyda'r un agwedd. Ar ôl holi o gwmpas, argymhellodd ffrindiau a chymdogion Catalanaidd gontractwr amaethyddol o dras Morocaidd. Roedd y ddau yn awyddus i dalu cyflog teg, gan wybod bod y dynion yn derbyn mwy nag isafswm cyflog Sbaen ac wedi eu cofrestru'n briodol ar gyfer gofal iechyd a'u hawliau eraill.

Roeddynt yn grŵp o ddynion dymunol a gweithgar dros ben. Wrth iddynt weithio, roedd Helen a Selwyn yn cysidro tybed faint o flynyddoedd sydd ers i'r terasau glywed Arabeg?: cannoedd o flynyddoedd o bosib. Weithiau'n sgwrsio; yn pryfocio'r ieuengaf o'r grŵp; weithiau'n canu; ac weithiau'n trafod materion cyfoes: grŵp o weithwyr fel unrhyw rai arall, yn tynnu coes a dadlau, ddim allan o le ar unrhyw fferm yng nghefn gwlad.

Er mwyn cadw llawn ansawdd a blas eu holew, maent yn mynd a'r ffrwyth i'r felin yn ddyddiol. Roedd pob diwrnod yn dod i ben ymhell ar ôl iddi nosi. Ar ôl i'r dynion fynd adra, roeddent yn mynd ymlaen i'r felin i aros eu tro, i olewydd y diwrnod hwnnw gael eu prosesu a'u gwasgu i mewn i olew olewydd dihalog o'r safon uchaf.

Ar ôl taith hir yn y car, rhyw 1279 milltir o Gatalonia i Gymru, mae'r olew olewydd wedi setlo ac ar gael yn lleol erbyn hyn.

Mae'r llyfr archebion yn llenwi, gyda llawer o gwsmeriaid blaenorol, a newydd, yn awyddus





i flasu olew eleni, ac i allu rhoi poteli i'w ffrindiau a'u teulu fel anrhegion Nadolig unigryw ac arbennig.

Ac os cewch y cyfle i'w flasu, mae'r cwpl yn gobeithio y gwnewch chithau gytuno, fod y gwaith caled yn werth yr ymdrech pan mae yn arwain at yr hylif gwerthfawr, atgofus hwn sy'n cwmpasu cymaint o hanes, diwylliant ac awyrgylch eu cornel bach o Gatalonia.

**Helen a Selwyn Williams**
E-bost: tybachtwtcatalonia@gmail.com Facebook: @tybachtwtcatalonia

**Y Podiatrydd · (Angharad)**
Yn anffodus oherwydd rhesymau personol byddwn yn cau ein drysau ar y 10fed o fis Rhagfyr. Bydd Twm 🐱 a fi yn symud i Llundain am rhai misoedd i gael gweithio i'r GIG cyn hedfan i Seland Newydd i swydd newydd. Mae wedi bod yn brofiad anhygoel gweithio yn ol yn Aberystwyth ond wedi bod yn annodd oherwydd yr amseroedd sydd ohoni. Byddaf yn drist iawn i ffarwelio gyda'r cleifion sydd wedi bod mor gefnogol dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddaf mewn cyswllt ar rhai sydd wedi archebu apwyntiad. Diolch yn fawr i chi gyd. Tan y tro nesa.

**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Rydym wedi cael mis prysur yn paratoi at ddathliadau'r Nadolig. Rydym wedi bod yn dysgu am stori'r geni a gwneud llawer o weithgareddau yn gysylltiedig a'r Nadolig.



Yn ystod mis Rhagfyr rydym wedi cael ymweliad gyda'r corrach cythryblus! Mae'r corrach drygionus wedi creu llawer o drafferth a syndod i'r plant bob bore. Gobeithiwn yn fawr y bydd yn dechrau bihafio yn fuan!

Roedd cyffro mawr yn y Cylch ar fore Gwener, Rhagfyr 10fed gan fod bys yn ein disgwyl i fynd am drip i weld Siôn Corn ym Mharc Fferm Ffantasi, Llanrhystud. Ein trip cyntaf ers dwy flynedd! Cafwyd trip Nadolig penigamp gyda phawb yn mwynhau gweithgareddau'r Fferm. Uchafbwynt y diwrnod oedd cael cwrdd Siôn Corn. Roedd pob plentyn wedi bod yn blant da a derbyniodd pawb anrheg ganddo.

Dymunwn yn dda i Evelyn yn ysgol Syr John Rhys, i Freddie, Phoebe, Ieuan a Lochlan yn ysgol Mynach, i Lisi yn ysgol Llanfihangel-y-creuddyn ac i Ronnie yn ysgol Pontrhydfendigaid ym mis Ionawr. Byddwn yn gweld eich eisiau'n fawr.

Rydym yn croesawu plant o 2 i 4 mlwydd oed. Os yr hoffech wybodaeth pellach, ebostiwch cmpenllwyn@gmail.com.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.







**Dyma rai o Sefydliad y Merched Pen-llwyn wedi bod yn brysur yn llenwi bocsus Nadolig tuag at Wasanaeth Camdrin Domesrig Ceredigion.**









# Aber-ffrwd a Chwmrheidol



**Capel Llwyn-y-groes**

Prynhawn Mercher Tachwedd 24ain cynhaliwyd gwasanaeth byr a syml i ddadgorffori Capel Llwyn-y-groes. Llywydd yr Henaduriaeth Mr. Martin Lewis oedd yng ngofal y gwasanaeth yn cael ei gynorthwyo gan Y Parchg Carwyn Arthur. Oherwydd rheolau Covid nid oedd yn bosibl i gael cynulleidfa felly cyfyngwyd y gwasanaeth i aelodau Llwyn-y-groes yn unig.

Cychwynnodd yr achos yn Nolfawr trwy gynnal cyfarfodydd Gweddi a chynhaliwyd Ysgol Sul yn yr Ysgoldy i lawr y ffordd hyd at 1897. Prynwyd tir i godi yr adeilad presennol o Stad Glanrheidol ar 12 Hydref 1904, sef darn o dir yn eiddo i fferm Dolfawr. Agorwyd y Capel yn 1905.Y trefniant oedd cael pregethwr o Aber-ffrwd am dri prynhawn y mis a'r pedwerydd Sul o Aber-ffrwd i Pisgah.'Roedd teuluoedd Dolfawr, Gwarddol,Ty-poeth, Penffrwd a Caehaidd yn gyfrifol am lanhau y Capel a darparu te i bregethwyr. Cynhaliwyd penny-readings, cyfarfodydd cystadleuol ac ambell i sosial fach. Yn niwedd y tridegau gwnaethpwyd casgliad o amgylch yr aelodau i brynu Harmoniwm a'r diweddar Dennis Benjamin oedd yr organydd cyntaf. Ef wnaeth roi yr organ bresennol yn rhodd yn ystod yr 80degau. Wedi cau Capel Pisgah cafwyd oedfa yn Llwyn-y-groes bob yn ail ag Aber-ffrwd. Ar ôl cau Aber-ffrwd gwnaed Llwyn-y-groes yn Eglwys gan mai cangen oedd hi gynt.

Yn ystod cof yr aelodau presennol bu y Capel o dan ofal gweinidogion Pen-llwyn y Parchedigion Maelgwyn Morris, Eifion Evans, Gruffudd Jones, Maldwyn Pryse a Morris P Morris. Byddai oedfa yn cael ei chynnal yn Aber-ffrwd yn y bore ac yna yn Llwyn-y-groes yn y prynhawn.


Caewyd Capel Aber-ffrwd ac yna cynhaliwyd oedfa yn Llwyn-y-groes ar brynhawn Sul. Cawsom flynyddoedd eithaf llewyrchus gyda y rhan fwyaf o aelodau Aber-ffrwd wedi ymaelodi yn Llwyn-y-groes. Roedd tua 15 aelod gyda tua 10 yn mynychu yn rheolaidd o Sul i Sul, gyda Dan Davies, Caehaidd, a Nerys Morris, y Neuadd yn flaenoriaid. Colled fawr oedd colli Dan Davies yn sydyn iawn yn 1992 ond mi gymrodd ei wraig Eirlys ac Elizabeth Lewis at yr awenau. Yn y cyfnod yma roedd yma 5 organyddes - Dwynwen, Rhian, Menna a Nerys ac mi roedd y ddiweddar Meriel Morgan yn organyddes a chantores ferndigedig ac yn gefn mawr i'r merched ifanc. Daeth tro ar fyd, y merched yn gorffen ysgol ac yn cael swyddi. Byddem yn cynnal oedfa Ddiolchgarwch bob mis Medi ac mi fyddai y Capel yn gyffyrddus lawn, gyda chyfeillion o Pen-llwyn, Goginan ac Eglwys Capel Bangor yn ymuno â ni. Roedd yna ddwy wraig yn byw ym Maesawelon drws nesaf ac mi fyddai y ddwy yn addurno y Capel yn chwaethus iawn ac yn dod o hyd i ysgub o lafur fel canolbwynt. Coffa da am y ddwy a fu mor gefnogol.

Rydym heddiw yn cofio am lawer un a fu yn aelodau ac yn weithgar iawn yma dros y blynyddoedd yn enwedig y ddiweddar Eirlys Davies, Caehaidd. Gofalodd am y Capel tan diwedd ei hoes ac mi fyddai bob amser yn paratoi te i'r pregethwyr gwadd. Roedd ambell un yn cyrraedd Goginan yn hwyr oherwydd cymaint oedd y croeso ar aelwyd Caehaidd. Llwyddom i gadw i fynd am 6 mlynedd ar ôl iddi ein gadael ond mae yn ddiwedd heddiw.

Aelod ffyddlon arall sydd yn methu bod gyda ni heddiw yw Gwen Morgan, Y Byngalo. Bu hi hefyd yn yn ffyddlon iawn i'r Achos yn Llwyn-y-groes a bob amser yn barod ei chymwynas i'r Capel.

Mae yn chwith meddwl ein bod yn cau y capel olaf yn yr ardal; Capel Bethel sydd yn awr yn weithdy celf; Capel Aber-ffrwd sydd yn gartref i deulu ifanc ac rydym yn meddwl beth yw y dyfodol i'r adeilad yma. Mae yr ardal wedi newid yn fawr ond mae yna dipyn o gymdeithas ar ôl yma. Gofynnwn i Dduw ein harwain i'r dyfodol.

# Cyfrol newydd i ddod yn 2022




Yn yr wythnosau diwethaf hysbysodd Rheilffordd Cwm Rheidol fod yna gyfrol gynhwysfawr am y rheilffordd ar fin gael ei chyhoeddi. Treuliwyd llawer o flynyddoedd yn ymchwilio archifau ac archaeoleg y Rheilffordd yn dyddio nôl i'r agoriad ym 1902 i gynhyrchu y gyfrol foethus hon sy'n cyflwyno disgrifiad heb ei fath o hanes, cyfarpar ac isadeiledd y Rheilffordd.

Ni allai'r tîm cynhyrchu fod mewn lle gwell i ymgymryd â'r gwaith – tîm sy'n cynnwys Stephen Phillips fu'n ymchwilio i gynlluniau a darluniau eglurhaol ac ymchwil Llŷr ap Iolo, Robert Gambrill a Robert Bance (Archifydd y Rheilffordd).

Mae'r lluniau hynod fanwl yn cynnwys locomotifs, cerbydau teithwyr, cyflenwadau nwyddau, signalau, gorsafoedd, colofnau dŵr ac yb Mae yna hefyd ddetholiad unigryw o luniau, dogfennau ac effemera o archifau'r Rheilffordd o'r dechreuad hyd at heddiw. Atgynhyrchir llawer o'r lluniau yma am y tro cyntaf – gyda nifer mewn lliw.

Dim ond oddi wrth y Rheilffordd fydd y gyfrol ar gael yn Ionawr 2022 mewn argraffiad cyfyngedig yn ôl y niferoedd fydd â diddordeb.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

## Cymru mewn 50 cerdd




*Cymru mewn 50 Cerdd;* gol. Alan Llwyd;
Lluniau Iestyn Hughes.
Cyhoeddiadau Barddas. 192t. £11.95

Gellir amau cywirdeb teitl y gyfrol hon, gan nad yw Cymru i gyd ynddi. Ar ôl dweud hynny mae blodeugerddi sy'n rhyddhau cerddi o'u cloriau gwreiddiol bob amser i'w croesawu, yn enwedig pan fo darluniau sydd mor llafar â'r cerddi eu hunain yn hebrwng y geiriau. Croeso felly i'r gyfrol *Cymru mewn 50 Cerdd***,** sy'n addo mynd â ni ar daith "ddaearyddol, hanesyddol a llenyddol," – y tair elfen, yn ôl y Golygydd, sydd ynghlwm â llefydd arwyddocaol. Fe hoffwn i ychwanegu pedwaredd, sef yr elfen bersonol, y teimlad o berthyn, sy'n dod i'r amlwg yn fynych yn y cerddi.

Ffrâm y gyfrol yw hanner cant o gerddi am fannau penodol, yn dechrau ar lan ogleddol Ynys Môn gyda cherdd Derec Llwyd Morgan i **Lanfair-yng-Nghornwy**, ac yn gorffen yn y Brifddinas gyda cherdd Mererid Hopwood, ***Cardiff Born***. Rhwng y ddau eithaf hynny anghyson yw'r dosbarthiad daearyddol, gyda 33 o'r 50 o'r llefydd y rhoir sylw iddyn nhw i'r gogledd o Afon Ddyfi, dim un rhwng Dyfi ac Ystwyth, a'r 17 arall i'r de o Ystwyth. Beth oedd y meini prawf a berodd i fro'r Tincer gael eu hystyried yn anialwch tybed? Digon gwan yw presenoldeb Sir Gaerfyrddin hefyd!

Ar wahân i gywydd Guto'r Glyn (1412-1493) i **Abaty Glyn y Groes**, a'r gerdd i **Goed Glyn Cynon** gan fardd anhysbys o'r 16eg ganrif, gweithiau beirdd yr 20fed ganrif yw'r prif gerddi, - cymysgedd ddymunol o hen gyfeillion annwyl, e.e. **Llyn y Gadair, Eifionydd, Cwm Pennant, Cilmeri, Preseli**, a newydd-ddyfodiaid, a ddaw gydag amser yn gyfeillion, yn sicr. Amrywiol yw'r cerddi o ran ffurf a mesur, a phob un yn ei thro yn cael ei dilyn gan bwt o eglurhad/ gwerthfawrogiad, ffeithiau bywgofiannol am y bardd, darnau perthnasol o gyfrolau teithio, megis cyfres Crwydro'r Siroedd, a dyfyniadau o weithiau beirdd eraill i'r un gwrthrych neu i un cyfagos. Rhwng popeth mae yma gloddfa gyfoethog o wybodaeth mewn geiriau.

At hynny mae yma ffotograffau sy'n gwneud llawer iawn mwy na rhoi darlun pert o'r gwrthrych. Mae'r llun o lonyddwch Llyn Padarn sydd gyda cherdd gynnil Dafydd John Pritchard, **Tarfu**, yn codi ysfa i erfyn ar y bardd i ymatal rhag difrodi'r perffeithrwydd; yn wrthbwynt iddo mae cyffro'r dŵr yn y llun ar gyfer **Ymatal,** cerdd ddirfodol Siân Owen i Faen Dylan ar draeth Aberdesach. Annisgwyl yw'r llun o **Ystrad Fflur** a dynnwyd o'r grib uwchben y safle; trwy osod y lle yng nghyd-destun ei amgylchedd o ran maint a lleoliad - yn wahanol iawn i'r bwa carreg mawr cyfarwydd, ystrydebol - mae'n galluogi dyn i ddarllen y gerdd gyfarwydd gyda llygaid newydd. "I ble mae Moel Famau'n mynd?" yw geiriau agoriadol cerdd J Eirian Davies **Aros a Mynd,** – a'r llun o ehangder gwlad Moel Famau tros gamfa sydd â'r enw Loggerheads arni yn cynnig ateb gogleisiol. Atgofion hafaidd plentyndod cyn y boddi sydd gan Nesta Wyn Jones yn **Capel Celyn,** a llun y geiriau herfeiddiol ar y pentwr anniben o gerrig mawr ger yr argae yn dihuno'r cof am yr anfadwaith gwleidyddol.

Gallwn fynd ymlaen, mae yma lawer mwy, a phob cerdd a llun yn haeddu sylw – gwahanol wynebau **Llyn Tegid** (Bobi Jones), naws eira yn awel y **Gaeaf yn Ninas Mawddwy** (Elinor Gwynn), taith bywyd o'r dieithr i'r cyfarwydd drwy unigeddau **Y Ffordd i Abergwesyn** (Alun Llywelyn Williams)**,** hiwmor dwys atgofus **Diwrnod i'r Brenin** (T. James Jones), a'r beddfeini llwydion a gwynion sy'n tystio i hanes "y twll du fu'n sugno gwŷr hyd y gwaelod cyn chwydu gwae." yng ngeiriau Christine James yn **Sêr, Merthyr Vale** (o Fynydd Aber-fan).

Nid cyfrol bwrdd coffi i droi ei dail, bwrw llygad dros ei geiriau a mwmial " 'na neis" am ei lluniau yw hon, ond casgliad o gerddi i'w treiddio gyda mwynhad ac oriel o luniau i'w harchwilio gyda blas. Byddai'n sbardun rhagorol i sgwrs mewn cyfeillach neu seiat.

Oes bwriad cyhoeddi olynydd tybed – "Bro'r Tincer mewn 50 Cerdd"?

"Peidiwch â bod yn farus, mae *Rhwng Teifi, Dyfi a'r Don* (Cyhoeddiadau Barddas) gyda chi'n barod!" medd llais y llyfrau!!

**Llinos Dafis**

## Cyngor Cymuned Geneur Glyn

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 29.11.2021 yn rhithiol, 'roedd un aelod yn absennol. (Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod, cysylltwch â'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor.
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Yr Is-Bwyllgor wedi cwrdd yn y parc i drafod datblygiadau. Disgwyl prisiau am gwaith a ceisiadau wedi'i neud am grantiau. Coed o amgylch y Polyn Baner wedi'i torri a coed yn cael eu plannu yn y parc yn ei le. Aelodau i gwrdd eto ac adrodd nôl i'r Cynghorwyr. Bu difrod i ddrws y sied a'r Heddlu wedi'i hysbysebu.
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol lledled Ceredigion. Cysgod Bws newydd yn cael ei osod.
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**: Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol. Lleoliad cyfarfod Mis Chwefror;
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 24 Ionawr 2022 trwy Zoom.

Pauline Lucas: clercgeneurglyn@yahoo.com

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Goginan

**Teyrnged i Angharad Jones**
Ganwyd Angharad ferch Llewelyn ar Ebrill 24, 1943 yn ferch i'r diweddar Llewelyn a Jane Bebb, Blaendyffryn, Goginan. Cafodd ei haddysg bore oes yn Ysgol Gymraeg, Lluest, Ysgol Gynradd Goginan cyn pasio y "11+" a mynychu Ysgol Ardwyn, Aberystwyth. Yn Ardwyn daeth dan ddylanwad ei hathrawes goginio Violet Jones. Dan ddylanwad yr athrawes a'i mam, oedd yn gogyddes o fri, penderfynnodd ganlyn gyrfa yn y byd arlwyo gan fynychu Coleg Arlwyo yn Yr Amwythig a chael gwaith yn yr ardal honno mewn sefydliadau addysgol.

Pan oedd yn ifanc darganfu y gallu i lefaru a bu yn adroddwraig lwyddiannus iawn yn ennill yn gyson mewn amryw o eisteddfodau lleol. Dysgodd chwarae'r piano a'r Delyn oedd ei thad wedi ei chael iddi a'i chwaer Bethan.

Pan yn yr Amwythig cyfarfu â'i gŵr cyntaf ac yno y ganed ei merch Sian. Penderfynu wedyn



dychwelyd i ardal ei mebyd a gosod gwreiddau yn yn Goedwig, Cwmbrwyno lle y ganwyd Mathew.

Ymhen amser fe briododd Islwyn a phenderfynu symud, yn gyntaf i Ogledd Cymru i fugeilio ac yna i Pantmawr, Llangurig cyn newid cwrs a penderfynu prynu y gwesty Dyffryn Castell ple daeth yn le poblogaidd gan bobl yn teithio ar yr A44 ac hefyd gwesty i gerddwyr Canolbarth Cymru a Phumlumon.

Penderfynu ymddeol a symud i fyw i Gapel Bangor, a chan nad oedd Angharad yn medru bod yn segur mynd ati i wneud gardd gwerth ei gweld. Roedd hefyd yn mwynhau helpu Sian yn y siop ym Mhenparcau. Cafodd llawer o bleser o gael ei wyres a wyrion, Cara, Ryan a Billy i aros ar wyliau. Mi roedd yn hoffi teithio ac yn fwy na pharod i godi ei phac a mynd am dro dramor.

Fe fu yn aelod ffyddlon o Gapel Y Dyffryn, Goginan ac er iddi erbyn hyn symud i Erw Goch, Waunfawr roedd yn dal yn aelod o Ferched y Wawr, Pen-llwyn.

Bu ei chynhebrwng yn Amlosgfa Aberystwyth ar Dachwedd 12 ond roedd Ryan yn methu bod yno oherwydd ei fod yn gweithio yn Awstralia ac yn methu teithio.

Cydymdeimlwn gyda Islwyn ei gŵr, Sian a Mathew, ei merch a mab. Cara, Ryan a Billy ei wyrion. Bethan ei chwaer ac Aled ei brawd.

**Gwerthu Ci**
Ar ddechrau yr adran clo y llynedd roedd gan Karen Price, Troedrhiw gŵn bach oedd ond ychydig wythnosau oed yn chwarae yn ffald y fferm ond heb yn wybod i Karen fe ddaeth yna fodur gwyn heibio a dwyn dau o'r cŵn. Drwy lwc roedd modryb Karen wedi sylwi ar y cerbyd yma a chysylltodd gyda Karen. Fe aeth Karen ar y cyfryngau cymdeithasol a chysylltu gyda'r heddlu, a gyda yr holl gyhoeddusrwydd fe gafwyd y cŵn yn ôl ac erbyn hyn ar ôl cael ei ddysgu am dros flwyddyn fe werthwyd Troedrhiw Spot am bron i bedair mil a hanner ar werthiant rhithiol o gŵn gweithio. Mi fyddai wedi bod yn golled fawr os byddai wedi ei werthu ymlaen fel ci bach anwes.

**Newydd trist**
Gyda'r Tincer yn mynd i'r wasg cafwyd y newyddion trist fod Adrian (Les) O'Leary, Lovedon House wedi marw yn sydyn o drawiad ar y galon nos Lun 6 Rhagfyr. Cyn ymddeol roedd yn ddarlithydd yn y Coleg Addysg Bellach yn Llanbadarn. Gobeithiwn gael teyrnged iddo y mis nesaf.

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Ffynhonnau**
Glanhau Ffynnon Geiniog, Cwm Elan yn 2012. O'r chwith i'r dde: Erwyd Howells; David Evans, Abergwngu, a Janet a Robert Hughes, Aberglanhirin. Ffynnon fechan ond didorol ar rosydd agored Llansanffraid Cwmdeuddwr, Powys. Rhagor o'i hanes yn rhifyn nesaf *Llygad y Ffynnon*- cylchlythyr Cymdeithas Ffynhonnau Cymru.



**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Mrs Lilian Evans, Borthyn Bach, ar golli ei phriod Mr David Evans

Hefyd â Mrs Evelyn Morgan, Cefenfaenor ar golli chwaer yng nghyfraith Mrs Margaret Lloyd o Aberaeron.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Jessica a Ieuan Evans, Wrecsam, ar enedigaeth mab – Jac Llywelyn ar 8 Rhagfyr- brawd bach i Ela a ŵyr i Cynthia a David Binks, Trysor.

**Marchnad Aberystwyth Gelli Angharad 4/12/2021. (1710)**
Defaid lladd (369). Amcf £59.63. Mwy £135 gan ST Jones, Caergywydd, Bow St.
Roedd marchnad dda ar y defaid mwyaf ac ychydig mwy yn cael eu cynnig ar werth.



Roedd gwerthiant tebyg i'r rhai llar eu maint.


Hyrddod (41). Amcgf £100. Mwy £129 gan Lewis, Gwyddgwion, Cwm Maethlon.
Rhai cryf a da drwodd.
Ŵyn stôr (1300). Amcgf £69. Mwy £165 gan Wellicome, Treflys, Llangwyryfon.
Roedd llawer o'r cynhyrchwyr yn gwerthu eu defaid am y tro olaf eleni. Gwerthodd yr wyn trymaf yn arbennig o dda. Diwedd da i'r flwyddyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Lleolir ffermdy *Cyneiniog* (SN719880) ym mhen uchaf Cwm Tŷ-nant, rhwng hen waith mwyn Bwlch-glas a chwarel yr Hafan. Digwydd yr enw hefyd am yr afon sy'n llifo o'r gogledd heibio'r ffermdy gan ymuno ag afon Eleri ger Pompren-geifr, ac fe'i gwelir yn enw'r gefnen, *Moel Cyneiniog*, sy'n codi'n serth y tu cefn i'r fferm.




**Map Arolwg Ordnans 1:50,000 (2021)**
**© Arolwg Ordnans (100064713)**

Daw'r enghraifft gynharaf o'r enw, *Keninock*, o un o weithredoedd Stad Gogerddan (GAB 3/1/7, 4-5) yn 1585/6. Fe'i ceir mewn ffurfiau amrywiol dros y canrifoedd dilynol er enghraifft *Kynninog* (Casgliad H. Harold Hughes (LlGC) rhif 52, 1658), *Cynneinogg* a *Kyninog* (Casgliad W. Isaac Williams (LlGC) rhif 16-17, 1689, a 49, 1709), *Tythin Kyninog* (ewyllys Morris Richard, SD 1727/121), *Caneinog* ('A Plan of the Mannor of Perveth', Lewis Morris, [1744]), a *Cyneiniog* (Map Degwm, 1847).

Un o awgrymiadau Iwan Wmffre (*Place-Names of Cardiganshire* t.1133) yw, os oes coel ar y llafariad -*e*- yn enghraifft Gogerddan yn 1585/6, y gellid tarddu'r enw o *cennin* 'llysieuyn o deulu'r winwyn' a'r terfyniad ansoddeiriol -*og*, yn disgrifio 'lle llawn cennin' (er mai *cenhinog* yw'r ffurf a ddisgwylid wedyn). Os felly, byddai'n enw i'w gymharu â phentref *Clynnog Fawr* (o *celynnog* 'lle llawn celyn'), a ffermydd *Rhedynog Bellaf* a *Rhedynog Isaf* ('lle llawn rhedyn') yn ardal Chwilog, sir Gaernarfon.

Ond mewn gwirionedd, mae'n fwy tebygol bod *Cyneiniog* yn deillio o'r enw personol *Cynan*, ynghyd â'r terfyniad -*iog* neu -*og*. Enw ydyw sy'n dynodi perchnogaeth, 'tir yn perthyn i Gynan', er na wyddom pwy yn union oedd y *Cynan* arbennig hwn. Gellir ei gymharu ag enwau megis *Brycheiniog* 'tir Brychan', *Rhufoniog* 'tir Rhufon', a *Thudweiliog* 'tir Tudwal'.

Mae ewyllys Morris Richard yn 1727 (a grybwyllwyd uchod) yn enwi nifer o ddaliadau eraill yn y cyffiniau,

> Lands called *Tythin Kyninog*, *Tythin Tu yn Twrch*, *Tythin Brin y vedwen vawr*, *Llain rhwng y dwifford* … together w^th the Lands called *Dipws vach*,

a bydd amryw ohonynt yn canu cloch heddiw, bron i dair canrif yn ddiweddarach.


Mae'r elfen *twrch* yn ein hatgoffa o *Gwm Twrch* y tu cefn i ffermdy *Cyneiniog*, gyda *twrch* yn disgrifio nant sy'n cloddio'i gwely. Gellir gweld adfeilion *Brynfedwen Fawr* ar y llechwedd rhwng Allt-goch y Mynydd a Thŷ-nant. A thebyg bod *Coed Dipws*, yn y fforch rhwng afon Cyneiniog a nant Cwm-byr, yn cadw cof o *Dipws vach*.

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru **www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Enwau caeau

Diolch i'm cyfaill Angharad Fychan am golofn arall ddifyr yn *Y Tincer* yn ei chyfres sy'n trafod enwau lleoedd. Roedd darllen am gae Carchar Bedford yn ardal Bancydarren yn fy atgoffa am yr hyn a ddywedwyd wrthyf am y cae sydd union y tu cefn i'm cartref yn Bont-goch, a nodir fel *Cae Pantgwyn* ar y map degwm. Fe welir Coed Pantgwyn yng nghornel pellaf y cae ar fap yr Arolwg Ordnans. Ond, ar lafar, fel y soniwyd wrthyf gan Rob Evans, a anwyd ac a fagwyd ym Mhantgwyn, gelwir y cae yn *Cae Llundain*. A'r rheswm? Nid oherwydd ei fod yn gae eithaf sylweddol o dros 13 erw yn ei faint, gan fod caeau eraill llawer mwy yn ei ymyl. Y rheswm a roddwyd dros yr enw yw hyn: o sefyll yng nghanol *Cae Pantgwyn*, mae'n amhosibl gweld unrhyw un o'r pedwar cornel, gan gyffelybu'r cae gyda phrifddinas fawr fel Llundain!

Mae'n eglurhad diddorol – yr unig gae arall y gwn amdano sy'n arddel yr un enw yw *Cae Llundain* ym mhlwyf Llanfihangel Rhos-y-corn yn Sir Gaerfyrddin, a nodwyd felly ar y map degwm perthnasol.
**Richard Huws**




**Map Arolwg Ordnans 6" (1906) Ceredigion IV SW**
**© Arolwg Ordnans (100064713)**

# Ysgol Rhydypennau





**Plant mewn angen**

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar yr 19eg o Dachwedd. Cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg o'u dewis am y diwrnod a threfnwyd mân weithgareddau a thasgau difyr i gydfynd gyda'r thema eleni sef 'Cydweithio'.

I ychwanegu at yr achlysur roedd Aled Hughes, BBC Radio Cymru wedi trefnu ymgyrch arbennig o'r enw #amdani21-sef rhedeg 2021 milltir. Felly i helpu'r ymgyrch gosodwyd her i blant blwyddyn 1 a 2, sef rhedeg 1000 lap o'r buarth mewn wythnos. Erbyn cyrraedd diwrnod Plant mewn Angen; roedd blwyddyn 2 wedi rhedeg 537 lap, a blwyddyn 1-595 lap. Felly, gyda'i gilydd, llwyddodd y plant redeg cyfwerth o 36 milltir! Ar ddiwedd yr holl firi, casglodd yr ysgol £425 tuag at Plant mewn Angen. Ymdrech arbennig!

**Llysgenhadon Ifanc**

Er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yng Ngheredigion mae Llysgenhadon Ifanc wedi eu penodi ar draws ysgolion y Sir. Yn ysgol Rhydypennau, penodwyd Gari Raggett a Gwenno Jones o flwyddyn 6; ac o flwyddyn 5, cafodd Ted Jones a Gwen Freeman eu hethol. Y mae'r pedwar ohonynt wedi derbyn hyfforddiant gan Stefano Antoniazzi ('Ceredigion Actif') ac y maent bellach yn trefnu sesiynau iechyd a ffitrwydd yn ein clwb cyn ysgol o chwarter wedi wyth tan chwarter i naw bob bore.

Yn ychwanegol i hyn; fe ddychwelodd Stefano rai diwrnodau'n ddiweddarach er mwyn gosod cynllun beicio mewn lle ar gyfer plant y dosbarth derbyn. Rydym wedi derbyn 10 beic newydd er mwyn hyrwyddo sgiliau beicio plant y Derbyn ac mi fyddant yn cael cyfleon i ymarfer a gwella ei sgiliau cydbwyso wrth feicio nes fydd Stefano yn dychwelyd yn y gwanwyn i weld cynnydd y plant.



**Podlediad**

Dros yr wythnosau diwethaf, bu plant blwyddyn 6 yn brysur yn cynllunio, ymchwilio ac ysgrifennu sgript ar y testun 'Ein Milltir Sgwâr'. Buont wedyn yn ymarfer yn ddiwyd er mwyn recordio'r sgript yn barod ar gyfer cyfarfod arbennig gyda neb llai na Marc Griffiths, Radio Cymru. Er mai cyfarfod rhithiol dros 'Teams' oedd hwn, bu'r plant yn brysur gyda Marc yn golygu cynnwys recordiad y Podlediad drwy ddileu unrhyw namau siarad ac ychwanegu cerddoriaeth i'r perfformiad. Mae'r Podlediad ar safle 'Clonc Cynefin' bellach a gallwch ei ganfod ar https://open.spotify.com/show/6uUjCB9YRACfoIPUnRb9wW.



**Adran yr Urdd**

Mae nosweithiau Adran yr Urdd bellach wedi ail ddechrau ar ôl yr hanner tymor. Rydym yn cwrdd bob nos Fercher gyda blynyddoedd un, dau a thri yn cymryd eu tro gyda blynyddoedd pedwar, pump a chwech. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau trwy'r Gaeaf tan y Pasg.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*





SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

**01970 617120**

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



# Ysgol Craig yr Wylfa

**Ysgol Iach**

**Plant Mewn Angen**

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu gofyn i bawb wisgo dillad ffansi i'r ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, sef gwallt gwyllt a dillad smotiog! Cafwyd diwrnod hwyliog a diolch i bawb am gyfrannu at yr achos teilwng eleni eto.

**Sustrans**

Rydym wedi bod yn cydweithio gyda Sustrans ers blynyddoedd bellach i hyrwyddo teithio diogel i'r ysgol. Fel rhan o'r cynllun mae'r plant yn cael dod â'u beiciau i'r ysgol bob dydd Mercher ac maent yn mwynhau ymarfer eu sgiliau. Roedd hi'n hyfryd i weld y plant yn ymateb mor bositif i'r gweithdai beicio a gynhaliwyd yn ystod y mis gan gynnwys sesiwn o drwsio beiciau gan Dr Beics.

**Cydweithio Campus**

Yn ystod y mis, bu Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Tal-y-bont yn parhau gyda'r cydweithio yn y Prosiect Pont yr Wylfa drwy greu podlediad ar y cyd. Thema'r podlediad oedd ein Milltir Sgwâr ac fe gawsom gymorth gwerthfawr gan Dr Hywel Griffiths o Brifysgol Aberystwyth a Mrs Mared Llwyd i baratoi'r gwaith. Penderfynwyd cyflwyno hanes Cors Fochno fel sail i'r gwaith gan fod y gors yn cysylltu ardal y Borth ac ardal Tal-y-bont. Fel rhan o'r cynllun, fe gafodd plant ysgol Craig yr Wylfa weithdy diddorol gan y cyflwynydd radio Marc Griffiths (Marci G) i ddangos sut mae golygu'r gwaith llafar ac ychwanegu effeithiau. Rydym yn gobeithio y bydd y podlediad ar gael i bawb yn y dyfodol agos. Diolch yn fawr i'r Dewiniaid Digidol, Liam ac Iyla, am eich gwaith yn recordio cyfraniadau'r plant.

**Ysgol y Gymuned**

**Diolchgarwch**

Yn dilyn ein gwasanaeth diolchgarwch roedd hi'n braf gallu trosglwyddo llond bocs o nwyddau o'r ysgol i'r Jubilee Storehouse. Diolch i ffrindiau'r ysgol am fod mor hael.










**Bags 2 School**

Diolch yn fawr i chi am gefnogi'r ysgol wrth ddod â hen ddillad i'r ysgol. Bydd yr arian yn mynd at brynu adnoddau newydd i'r plant.

**Clwb celf**

Yn dilyn llwyddiant y Clwb Coginio gyda Miss Ann yn ystod hanner tymor cyntaf y flwyddyn, tro'r artistiaid yw hi nawr i fod yn rhan o'r Clwb Celf. Diolch yn fawr i Miss Griffiths am baratoi sesiynau diddorol i'r plant.

**Arwyr y Byd Gwyllt**

Dros yr haf roedd plant Ceredigion yn cael eu hannog i ymuno â Chynllun Arwyr y Byd Gwyllt ar gyfer yr her ddarllen flynyddol. Roedd y llyfrgelloedd wedi cydweithio gyda'r WWF i ddangos sut y gallai plant hefyd wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd. Da iawn ti Harper am dderbyn yr her ac am gael dy dystysgrif.

**Latkes**

Mae'r Iddewon yn dathlu gŵyl Hanukkah dros wyth diwrnod ym mis Tachwedd. Mae'n draddodiad i gynnau canhwyllau ar ganhwyllbren gyda naw cangen, sef y menorah (neu Hanukkah) ac oherwydd bod olew yn bwysig i'r wyl, maent yn paratoi bwyd arbennig fel latkes, (teisennau tatws) sydd wedi eu coginio mewn olew. Diolch yn fawr i Mrs Nelmes am goginio latkes gyda ni.

Fydd ddim cyfle i ddymuno'n dda i bawb yn gyhoeddus eleni eto, felly Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.





# Ysgol Pen-llwyn

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Gwisgodd y plant ddillad lliwgar i ddathlu diwrnod Plant Mewn Angen eleni. Roedd gweithgareddau di-ri' yn y dosbarth ac amser chwarae ac aeth y plant am dro o amgylch y pentref. Buodd y plant yn cerdded dwy filltir o amgylch y pentref i godi arian.

**Wythnos Gwrth-Fwlio**
I godi ymwybyddiaeth o Wythnos Gwrth-Fwlio gwisgodd y plant sanau od trwy'r wythnos. Gobeithio fod Mam a Dad wedi gallu rhoi'r parau sanau yn ôl at ei gilydd!

**Cymry i'r Carn**
Mae criw Cymry i'r Carn wedi llwyddo i sicrhau Gwobr Arian y Siarter Iaith am eleni. Rydyn ni yn ddiolchgar iawn iddynt am eu holl waith caled ac yn ddiolchgar iawn i Mr Ceris Gruffudd a ddarparodd lawer o'r dystiolaeth angenrheidiol ac i bawb sydd wedi helpu gyda'r achos. Llongyfarchiadau blant!

**Sesiwn PC Hanna**
Cafodd y plant hynaf sesiwn gyda PC Hanna yn dysgu am ymddygiad gwrthgymdeithasol a bwlio ar-lein. Gwybodaeth hollbwysig ar gyfer ein hoes fodern.

**Trip Llain**
Aeth plant y dosbarth hynaf ar drip diwrnod i Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored Llain (Llanarth) ar y 5ed o Dachwedd. Cafwyd amser ardderchog yn gwneud pob math o weithgareddau a chafwyd diwrnod i'r brenin.

**Wythnos Crefyddau'r Byd**
Cafodd y plant nifer o gyflwyniadau, straeon a gweithgareddau amrywiol i ddysgu am wahanol gredoau'r byd. Cyfle ardderchog i ddysgu am gredoau eraill ac amrywiaeth byd eang.

**Cadw Cysylltiad**
Buodd plant Cyfnod Allweddol 2 yn gohebu trwy gyfrwng e-bost gyda phlant Ysgol Llwyn yr Eos. Roedd y plant yn rhannu straeon a newyddion gyda'i gilydd.

**Clwb Urdd Gobaith Cymru**
Mae Clwb yr Urdd bellach wedi ail-ddechrau. Mae'r plant wedi mwynhau sesiynau bingo, creu addurniadau Nadolig ac addurno bisgedi Nadoligaidd.

**Nadolig Ers Lawer Dydd**
Roedd plant y Cyfnod Sylfaen yn hynod ffodus o gael ymweliad trwy gyfrwng Teams gyda mam-gu Mrs Parr-Davies a siaradodd gyda'r plant am sut oedd addysg a'r profiad o fynychu'r ysgol yn ei hamser hi ac am draddodiadau Nadolig. Roedd y plant yn gwrando yn astud ac yn cyfrannu yn dda ond cafwyd sioc fawr o ddeall nad oedd hi yn canfod unrhyw siocled yn ei hosan Nadolig!










**Sioe Nadolig**
Mae plant Pen-llwyn wedi bod yn hynod brysur yn paratoi at ein sioe Nadolig ar y 9fed o Ragfyr. Mae sioe eleni yn digwydd tu allan yn yr awyr agored oherwydd y feirws felly bydd awyrgylch wahanol iawn eleni. Mae'r plant yn haeddu sioe wedi tymor caled iawn ac rydyn ni yn ddiolchgar iawn o fod mewn sefyllfa i fedru cynnal sioe o gwbl. Edrychwn ymlaen at fwrlwm y sioe.

**Cynrig y Corrach**
Mae Cynrig y Corrach yn ôl ac yn creu hafoc ar hyd yr ysgol. Mae'n siŵr eich bod yn gyfarwydd gyda'r "Elf on the Shelf" felly cadwch lygad barcud allan am Cynrig, sydd yn gorrach drygionus iawn, er ar adegau gall fod yn garedig hefyd. Does dim dal!

## GYDA'N GILYDD

**Penllanw Thema Iechyd da**
Mae disgyblion CA2 wedi bod yn arbrofi trwy'r tymor ar y thema 'Iechyd Da'-mae trywydd y dysgu wedi mynd a nhw ar lwybrau di-ri ond mae'r ffocws pennaf wedi bod ar fwydydd penodol a choginio yn bennaf. Rydyn yn mynd i ddathlu penllanw y thema trwy werthu y llyfr coginio rydyn wedi ei gynllunio a'i greu! Felly os ydych am gefnogi'r disgyblion trwy brynu copi cysylltwch gyda naill ai Pen-llwyn neu Penrhyn-coch. Anrheg Nadolig perffaith!

# Ysgol Penrhyn-coch

**Diwrnod yn Llain-Bl 5 a 6**
Cawsom ddiwrnod i'r brenin yng Nghanolfan Gweithgareddau Allanol Llain. Fe wnaethom ni ddringo wal, cwrs rhaffau uchel ac i goroni'r cyfan ras fwd – roeddem ni wedi'n gorchuddio mewn mwd o'n corun i'n sawdl! Diolch i Gethin, Andy a Pablo am ddiwrnod bendigedig!

**Sgwrs a ffilmio gyda Jess Davies**
Cafodd Blwyddyn 6 wers am e-ddiogelwch a'r cyfryngau cymdeithasol yng nghwmni Jess Davies yn ddiweddar. Mi fydd rhaglen ar S4C yn y flwyddyn newydd.

**PC Hanna**
Cawsom wers am seibrfwlio yn ystod Wythnos Gwrthfwlio yng nghwmni PC Hannah. Dysgon fod angen gwneud 5 peth pwysig pan mae hyn yn digwydd – 1. Peidio ag ymateb. 2. Blocio. 3. Cadw. 4. Dweud. 5. Riportio. Diolch PC Hannah am y wers bwysig.

**Hyfforddiant Llysgenhadon Efydd yr ysgol**
Diolch yn fawr iawn i Steffano o Geredigion Actif am gynnal hyfforddiant i'r Llysgenhadon Efydd yn yr ysgol. Fe wnaeth Aron, Elan, Ollie a Lleucu fwynhau mas draw a defnyddio'r hyfforddiant yn syth yn ein gwersi Addysg Gorfforol.

**Diwrnod y Cofio**
Buodd y disgyblion yn brysur iawn yn paratoi darnau o grefft I gofio am y rhai o'r pentref collodd eu bywydau yn ystod y ddau Ryfel Byd. Trefnwyd yr arddangosfa gyda Mrs Lynwen Jenkins a Melina Holmes ac mi roedd mynedfa Garej Tŷ Mawr yn edrych yn ardderchog-pabis piws a choch allan o waelodion poteli yna lanterni trawiadol iawn wrth ail ddefnyddio jariau gwydr.

**Siarter Iaith**
Llongyfarchiadau mawr i griw Cymry i'r Carn – Cayden, Caio, Seren, Anest, Mabli, Elis Emlyn, Anest a Siôn - ar lwyddo i gyflawni Cam Arian y Siarter Iaith. Diolch i'r holl randdeiliaid am eu cymorth, yn enwedig i Mr. Ceris Gruffudd. Ymlaen i'r Aur!

**Plant Mewn Angen**
Fe wnaethom ni wisgo i fyny yn ein pyjamas am y diwrnod ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen eleni. Llwyddon ni i godi £148.60 tuag at yr achos. Hefyd, fe wnaethom gyfrannu tuag at Her Aled Hughes, cerddom gyfanswm o 90 milltir i gyd! Campus!

**Podlediad Marci G**
Bu Blwyddyn 5 a 6 yn brysur iawn yn cynllunio a chreu podlediad. Cawsom hyfforddiant ar sut i greu podlediad o dan arweinyddiaeth Marci G (Radio Cymru, Cymru.fm a StiwdioBox) ac yna gweithdy ar sut i roi y cyfan at ei gilydd. Pod Penrhyn yw enw ein podlediad. Podlediad o dan y thema 'Ein Milltir Sgwâr'. Yr ydym wedi cael cyfweliadau difyr a diddorol gyda newyddiadurwr enwog o'r ardal sef Mr. Cemlyn Davies, Mr. Ceris Gruffudd a Ms. Jane Powell. Diolch o galon iddynt i gyd am fod mor barod i roi o'u hamser ar bob achlysur. Gallwch wrando ar 'Pod Penrhyn' ar Apple Podcast neu ar Spotify – chwiliwch am Pod Penrhyn neu Clonc Cynefin. Bydd yn wledd i'r glust!

**Ffair Aeaf**
Cafwyd Ffair Aeaf lwyddiannus iawn eleni-aeth nifer o'r disgyblion ati I baratoi eitemau crefft a choginio pethau blasus! Daeth llwyddiant arbennig yn y dosbarth addurno bisgedi -Math Davies 1af, Ifan Edwards yn 2il ac Elen Evans yn 3ydd.
Yna cafodd Gruffydd Ap Llywelyn 1af gyda'i garw allan o bren a Mabli ei chwaer yn 2il gyda 'Quiche' flasus iawn!
Diolch i Gwenno a Lleucu ap Llywelyn ac i Eva a Milly Riding am gystadlu hefyd. Da iawn chi am roi'r Ysgol ar y map!

**Ffarwelio**
Rydyn wedi ffarwelio gyda Miss Sarah oedd yn gweithio yn nosbarth Bl 1 a 2 -byddwn yn gweld ei heisiau ond yn dymuno yn dda iddi yn ei swydd newydd.


















# Tasg y Tincer

Diolch yn fawr i chi i gyd am y llu o luniau o'r tywysog dewr ddaeth drwy'r post. Ro'n i'n hoffi'r darian, Tesni, a'r tân gwyllt yn eich lluniau chi, Carian, Iestyn a Tirion. Gwych! A'r tywysog mewn gwisg werdd, Alys. Waw! Dyma'r enwau: Tesni Davies, Llanilar; Elsi Wynn Lewis, Capel Bangor; Math, Celt a Lois Roberts, Bont-goch; Carian, Iestyn a Tirion Evans, y Borth; Alys England, Bow Street; Cadi Grug Edwards, Cemaes.



Celt

Dy enw di, **Celt**, ddaeth o'r het yn gyntaf. Hwrê mawr!

Er mai **Siôn Corn**, gŵr barfog, caredig mewn dillad coch a gwyn, sy'n dod ag anrhegion i ni ar noswyl Nadolig, nid dyna sydd digwydd ym mhob gwlad. Corrach bach o'r enw **Jõuluvana** ddaw at blant Estonia. Mae e'n hoffi cael pysgodyn yn wobr am ei waith, nid mins-pei a gwydraid o sieri! **Saxta Baba** a'i wyres **Qar Qizi** sy'n dod ag anrhegion i blant Azerbaijan, a hynny ar Ddydd Calan. **Bom Velhinho** sy'n ymweld â phlant Brasil, a **Tió de Nadal** – darn o bren ag wyneb arno – sy'n dod ag anrhegion i gartrefi Catalonia. Mae'r pren yn cael ei gadw'n ddiddig o dan flanced gynnes drwy gydol mis Rhagfyr, a daw'r plant o hyd i'w hanrhegion o dan y flanced.

Yn Ffrainc, mae pobl yn rhoi afalau ar y goeden Nadolig, canhwyllau yn yr Almaen, cregyn o'r môr yn Awstralia, calonnau papur yn Denmarc, a gwe pry cop sgleiniog yn yr Wcrain. Pa bynnag addurniadau sydd ar eich coeden, cofiwch mai dathlu geni Iesu Grist yw'r rheswm dros y cyfan. Mae'n hyfryd cael rhoi a derbyn anrhegion – a mwynhau!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP (anwenmai@hotmail.co.uk) erbyn 4 Ionawr 2022. Ta ta tan toc, a Nadolig llawen i chi i gyd!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

*Rhif 444 | Rhagfyr 2021*